

## CLWYF Y CYFRESI

Un o brif ofidiau casglwyr yw sicrhau fod ganddynt set lawn o gyfres wrth iddynt ymateb i anogaeth y cyhoeddwr - 'Mynnwch y gyfres yn gyflawn', ond gyda threigl amser nid hawdd, weithiau, yw gwybod neu gofio beth sydd mewn set. Gyda chaniatâd y golygydd gobeithiaf allu rhestru o bryd i'w gilydd deitlau ambell gyfres, ac os bydd hyn yn sbarduno rhywrai eraill i ymuno yn y gorchwyl ac i lenwi bylchau yn y rhestr hyn a'u diwygio, gorau oll.

Cafwyd eisoes yn *Y Casglwr* restrri o rai cyfresi pwysig a gwybodaeth amdanynt, megis Cyfres y Brifysgol a'r Werin (13.6, 24.10); Cyfres y Fil (1.12); Llyfrau Ab Owen (2.12); Cyfres Ddwieithog Gŵyl Ddewi (10.5); Cyfres y Werin (12.13); Cymdeithas Llên Cymru (5.16); *Cofion Cymru, Y Ddolen, Y Llyfrau Anrheg* (15.15, 21.16, 49:15); Pamffledi Harlech (15.15); Pamffledi Heddwch Cymru (15.15); Bangor Manuscript Society (56/57. 20); Cyfres y Ceinion (34.18); Cyfres yr Enfys (31:17). 'Pedwar teitl sicr y gwn amdanynt yng Nghyfes Boblogaidd yr Aelwyd (Hughes a'i Fab, Wrecsam), [Isaac Foulkes], *Cymru Fu*, 1862; Thomas Levi, *Hanesion y Beibl* [1870]; (Rhif 3). Thomas Thomas, *Hynodion hen bregethwy'r Cymru, gyda hanesion difyrus amdanynt*; Robert Jones, *Cydymaith Dyddanus* [1878]; a thybed a oes mwy nag un teitl yng Nghyfes Arweinwyr Cymru (gol. Thomas Shankland a John Morgan Jones, Hughes a'i Fab, Wrecsam), sef D. Ambrose Jones, *Griffith Jones, Llanddowror* (1923)?

### LLYFRAU PAWB, Gwasg Gee, Dinbych.


'Cyfres newydd sbon o lyfrau rhad a diddorol gan rai o brif lenorion ein cenedl'. 'Nid ail-argreffir yr un rhifyn, ac oblegid hynny y mae'n bwysig archebu pob copi gyda llyfrwerthwr neu oddi wrth LLYFRAU PAWB, DINBYCH'

Cyfres fisol (am y rhan fwyaf o'i hanes), Mehefin 1943-Rhagfyr 1948, 1-35, o nofelau, storïau ac ysgrifau, cerddi, hunan-gofiannau ac atgofion, pregethau; pob llyfryn tua 40, 64, neu 80 o dudalennau, clawr papur (pinc, 1-7, llwyd, 8-12, gwyrdd, 9-35), pris 1/3. Cafwyd cyfrol Omnibus o rai hen rifynnau (14, 24, 27, 28, 30) dan yr enw Llyfrau'r Wiwer yn 1959.

- [1] Rhys J Davies, *Pobl a phethau*, Mehefin 1943.
- [2] George M Ll Davies, *Pererindod Heddwch*, Gorffennaf 1943.
- [3] 'Pte. P' [Caradog Prichard],

*'Rwyf innau'n filwr bychan*, Awst 1943.

- [4] Gwilym R Jones, *Gweddw'r dafarn*, Medi 1943.
- [5] Sarnicol, *Patrymau gwlad*, Hydref 1943.
- [6] George M Ll Davies, *Profiadau pellach (Pererindod heddwch, II)*, Tachwedd 1943. Rhifynnau 1,2,3,4, allan o brint.



diwyg llyfrau pawb.

- [7] T Rowland Hughes, cerddoriaeth gan Davey Davies, darluniau gan Dewi Prys Thomas, *Caneuon Sion*, Rhagfyr 1943.
- [8] E Tegla Davies, *Gorchfygu'r byd*, Ionawr 1944. Rhifynnau 1-6 allan o brint.
- [9] J Williams Hughes, *Troi'n alltud*, Chwefror 1944.
- [10] Moelona, *Y lleian lwyd*, Mawrth 1944.
- [11] T E Nicholas, *Y dyn a'r gaib*, Ebrill 1944.
- [12] Daniel Williams, *Hen arweinwyr eisteddfodau*, Mai 1944.
- [13] E Morgan Humphreys, *Ceulan y Llyn Du*, Mehefin 1944, Medi 1944.
- [14] Vercors (cyf. W Ambrose Bebb), *Mudandod y môr*, Gorffennaf 1944.
- [15] D R Hughes, *Yma ac acw*, Awst 1944.
- [16] G J Roberts, *Wrth y tân*, Medi 1944.
- [17] Kate Bosse-Griffiths, *Fy chwaer Efa*, Hydref 1944.
- [18] R Bryn Williams, *Lloffion o'r Wladfa*, Tachwedd 1944.
- [19] E H Francis Thomas [D Tecwyn Lloyd], *Rhyw ystyr hud*, Rhagfyr 1944.
- [20] B H Liddell Hart (cyf. William Thomas), *Ffolineb dynion*, Ionawr 1945.
- [21] Sion Germin, *Cyflafan y plas*, Chwefror 1945.
- [22] O E Roberts, *Hela'r meicrob*, Mawrth 1945.
- [23] Robin o Feirion, *Troeon yr yrfa*, Ebrill 1945. Ni ddymuna awdur 'Troeon yr Yrfa' ddweud dim amdano'i hun. Ysgrifennodd, meddai, er mwyn y pleser o ysgrifennu ac ailfyw'r hen fywyd. Credwn

fod y gyfrol hon yn enghraifft fel y gall gŵr nad ysgrifennodd erioed lyfr nac erthygl i bapur gynhyrchu cyfrol ddiddorol. Gellir dweud bod yr awdur yn arbenigwr yn ei faes, yn hyddysg ym myd masnach ac wedi bod yn uchel ei swydd yng nghylchoedd cyfrinachol y Llywodraeth. Ond ofer a fydd dyfalu pwy ydyw canys ychydig iawn a glywodd am ei enw. Broliant y llyfr: llofnodir y Rhagymadrodd 'Llundain'.

- [24] Cyril P Cule, *Gweld y byd*, Mai 1945.
- [25] D Edmund Williams, *Hawlio'r moroedd*, Medi 1945.
- [26] R J Jones, *Myfyron min y mynydd*, Tachwedd 1945.
- [27] Twrgenieff (cyf. T Hudson-Williams), *Ar y gweirglodd*, Ionawr 1946.
- [28] Awena Rhun, *Dan gwmwl*, Chwefror 1946.
- [29] Ancirin Talfan Davies, *Y tir diffaith*, Mai 1946.
- [30] Sion Germin, *Melltith yr Hafod*, Rhagfyr 1946.
- [31] R H Davies, *Y gloch goll*, Ebrill 1947.
- [32] Fanny Jones, *Atgofion am Dalysarn*, Mai 1947.
- [33] O E Roberts, *Dirgelwch yr atom*, Tachwedd 1947.
- [34] David Thomas, *Dyddiau i'w cofio*, Mawrth 1948.
- [35] Robin o Feirion, *Hen lythyrau*, Rhagfyr 1948.


### LLYFRAU'R FORD GRON, Hughes a'i Fab, Wrecsam.

Dyma drysorau llenyddiaeth Cymru o fewn cyraedd pawb. Yr oedd y rhan fwyaf o'r gweithiau hyn yn anodd, neu'n amhosibl, eu cael am arian. Y mae'r tri llyfr cyntaf yn barod, ac fe gyhoeddwyd y gweddill fesul dau neu dri bob mis, am 6<sup>d</sup> yr un. Rhoddir y llyfrau hyn i ddatlu penblwydd cyntaf Y FORD GRON. (Hysbyseb yn *Y Ford Gron*, 28 Hydref 1931).

Rhestrwyd yr 20 teitl yn *Y Ford Gron* fis Tachwedd 1931 ac yna ar glawr cefn pob rhifyn. Cadwyd at yr addewid yn ffyddlon a'u cyhoeddi fesul dau neu dri bob mis. Y golygydd oedd J T Jones (John Eilian), golygydd *Y Ford Gron*. Llyfrynnau hirgul ydynt, cloriau gwyrdd gydag ymyl addurnedig. Cafwyd adargraffiad ohonynt gyda chloriau gwahanol yn 1977, a phedair o gyfrolau cyfun wedi'u rhwymo yn ogystal.

1. *Penillion Telyn*.
2. *Williams Pantycelyn: Temiad Theomemphus*.
3. *Goronwy Owen: Detholiad o'i Farddoniaeth*.
4. *Emrys ap Iwan: Breuddwyd*

5. *Emrys ap Iwan: Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys, I.*
6. *Dafydd ap Gwilym: Detholiad o'i Farddoniaeth*.
7. *Samuel Roberts: Heddwch a Rhyfel*.
8. *Thomas Edwards (Twm o'r Nant): Tri Chryfion Byd*.
9. *Y Ficer Pritchard: Cannawyll y Cymry*.
10. *Y Mabinogion: Branwen ferch Llyr a Lludd a Llefelys*.
11. *Morgan Llwyd: Llythyr i'r Cymry Cariadus, a barddoniaeth*.
12. *Y Cywyddwyr*.



Diwyg llyfrau'r Ford Gron.

13. *Elis Wynne: Gweledigaeth Cwrs y Byd (o "Weledigaethau'r Bardd Cwsg")*.
14. *Eben Fardd: Detholiad o'i Farddoniaeth*.
15. *Theophilus Evans: Drych y Prif Oesoedd*.
16. *John Jones, Glan y Gors: Seren tan Gwmwl*.
17. *Syr John Morris-Jones: Salm i Famon a Marwnad Gray*.
18. *Gwilym Hiraethog: Troedigaeth Hen W'r yr Hafod*.
19. *Syr Owen M. Edwards: Detholiad o'i Ysgrifau*.
20. *Islwyn: Detholiad o'i Farddoniaeth*.  
Brynley F. Roberts

## Ar Werth

Urdd Gobaith Cymru. Tair Cyfrol, Hanes yr Urdd. (1) 1922-45; (2) 1946-60; (3) 1960-72. R.E. Griffith, Aberystwyth. c.c. Aberystwyth. Set: £12 + cludiant

Yr Aelwyd. Cyfrol 10, 1950. Cylchgrawn yr Aelwydydd. c.c. Cyflwr da: £2 + cludiant.

Yr Ysgol Farddol, Dafydd Morganwg. c.c.: £2 + cludiant.

Llyfr y Cynganeddion. J.J. Evans. Ailargraffiad, Caerdydd 1951. c.c. Cyflwr da: £3 + cludiant.

Cysyllter â John Roberts ar (01286) 830505.